PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Penodwyd y Cynghorydd Mary McGarry yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r canlynol yn aelodau'r pwyllgor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017:

Y Cynghorydd Ali Ahmed, y Cynghorydd Asghar Ali, y Cynghorydd Joe Carter, y Cynghorydd Susan Goddard, y Cynghorydd Shaun Jenkins, y Cynghorydd Kathryn Kelloway, y Cynghorydd Sue Lent.

2 : CYLCH GORCHWYL

Craffu ar, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau'n Gyntaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl a Nam Corfforol
- Strategaeth Comisiynu
- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus dan Nawdd Llywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

Gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn y Cyngor yn ôl Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad ohoni; ac fel dirprwy i'r Cyngor, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau a ganiateir dan y Ddeddf.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carter a'r Cynghorydd Goddard.  Roedd y Cynghorydd Lent wedi rhoi gwybod y byddai'n hwyr yn cyrraedd oherwydd ymrwymiad blaenorol.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Asghar Ali fuddiant personol yn eitemau 6 a 7 gan ei fod yn landlord.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 ac 8 Mawrth 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2017-18

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau a Colin Blackmore, Rheolwr Gwella Adeiladau i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod angen craffu ar yr eitem hon cyn y penderfyniad; craffu adroddiad i'r Cabinet, i'w ystyried yn eu cyfarfod ar 27 Gorffennaf 2017.  Cwmpas y craffu oedd edrych ar y rhagdybiaethau ariannol yn y cynllun busnes arfaethedig er mwyn gwirio eu bod yn gadarn ac edrych sut dylid defnyddio adnoddau yn y CRT, i gynnal a chadw tai cyngor a darparu tai cyngor newydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad i ddiolch i'r Pwyllgor am y cyfle i wneud datganiad byr am y cynlluniau a'r dyheadau am dai a chymunedau yng Nghaerdydd.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod Tai wrth ganol llesiant cymuned a dywedodd ei bod hi wedi ymrwymo i sicrhau cyflawni tai o safon sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer y rhai â'r angen mwyaf.

Mae Cynllun Busnes y CRT yn cyfathrebu sut bydd Caerdydd yn cyflawni'r amcanion hyn ac yn amlygu llawer o brojectau cyffrous a gynllunnir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thorne ei bod hi'n benodol fodlon ar y cynnydd a wnaed wrth gyrraedd targedau heriol ar gyfer tai newydd ac ymroddiad parhaus staff tai wrth sicrhau bod tenantiaid presennol yn parhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.

Cyflwynodd Colin Blackmore, y Rheolwr Gwella Adeiladau, gyflwyniad ar brif bwyntiau Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2017-18 ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ynghylch lle y cafodd arian y cyfraniad cynllunio ei wario a dywedwyd wrthynt mai arian A106 oedd, yn gyffredinol; gellid bod cyfraniadau ar y safle neu oddi arno; aeth cyfraniadau ar y safle i'r

Cymdeithasai Tai a defnyddiwyd y rhai oddi ar y safle i gymorthdalu tai newydd.

- Canmolodd yr aelodau swyddogion ar yr adroddiad ac ar y gwaith a wnaed ar Sgwâr Loudon yr oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol eisoes gostwng o'i herwydd.

- Roedd yr aelodau yn hapus i weld rhagor o dai cymdeithasol yn cael eu cynnig a gofynnont ym mha ardaloedd y câi'r rhai eu hadeiladu.
  Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n dibynnu ar lle mae tir ar gael; roedd y CRT yn berchen ar rai safleoedd. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi ymweld â Ladywell yn Llundain a gweld tai fframiau pren a gydosodir mewn ffatri, y gellid eu defnyddio fel tai dros dro neu rai parhaol - gellid eu symud deirgwaith. Ystyriwyd y gallai hyn fod yn opsiwn ar gyfer Caerdydd, er mwyn eu cael fel tai dros dro ar dir Cartrefi Caerdydd na châi ei ddefnyddio am ychydig o flynyddoedd. Roedd rhagor o ymchwil i'w wneud ond roedd yr Aelod Cabinet yn gobeithio cynnig hyn fel peilot y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ariannu er mwyn cyflymu'r broses o ddarparu rhagor o dai cymdeithasol.

- Dywedodd yr aelodau y byddai gan Cartrefi Caerdydd 60% o eiddo nad yw'n fforddiadwy a gofynnont beth oedd y rheswm dros hyn. Esboniodd swyddogion na ddatblygid ar rai safleoedd yn y cynllun, trwy gyfuno safleoedd gallai datblygu fod ar draws y darn, gyda rhai ar werth gan y datblygwr a rhai ar gyfer y Cyngor, a byddai rhai o'r rhain yn dai fforddiadwy.
  Byddai hyn hefyd yn galluogi cymysgedd o gymunedau preifat a chymdeithasol.

- Gofynnodd yr aelodau a ddysgwyd gwersi am ystadau mawr o dai cymdeithasol, wrth edrych yn ôl.
  Dywedodd swyddogion nad yw nifer yr unedau tai cymdeithasol wedi tyfu ers 1981, ond mae'r boblogaeth wedi tyfu'n aruthrol a bu cyfuniad o angen a chynnydd yn y galw. Ystyriwyd y câi cymysgedd o gymunedau tai preifat a chymdeithasol eu defnyddio bob amser bellach.

- Sylwodd yr aelodau mai un o argymhellion adroddiad y Cabinet oedd adfeddu tir y Gronfa Gyffredinol. Gofynnodd aelodau sut y penderfynid ar bris y farchnad a sut y penderfynid ar yr hyn a dynnir o'r Gronfa Gyffredinol i mewn i'r CRT. Esboniodd y swyddogion yr ymgymerid â'r gwerthusiad gan brisiwr y Cyngor ei hun, mae'n rhaid iddo fod o werth y farchnad neu'n gwella llesiant y ddinas. Pan fydd y Cyngor yn ystyried gwerthu tir, caiff ei ystyried at ddefnydd datblygu tai cyn cael ei roi ar y farchnad. Yn ogystal, mae'n rhaid ystyried a yw'n ychwanegu at stoc tai fforddiadwy yn y ddinas cyn cael ei werthu; felly mae camau ychwanegol yn y broses.

- Gofynnodd aelodau am ddiffiniad tai fforddiadwy. Esboniodd swyddogion y byddai holl eiddo'r Cyngor i'w rhentu fel tai cymdeithasol neu eu gwerthu ar y farchnad fforddiadwy er mwyn perchentyaeth fforddiadwy. Roedd yn seiliedig ar lefelau Lwfans Tai Lleol oherwydd y byddai angen iddo gael ei dalu gan y Lwfans Tai. O ran polisi gosod rhent, byddai'r pris am fflat un ystafell wely yr un faint drwyddi draw pan fo pethau ychwanegol yn gynwysedig, megis taliadau cynnal a chadw.

- Cyfeiriodd yr aelodau at daenelli dŵr gan nodi nad oedd unrhyw sôn amdanynt yn yr adroddiad; gofynnodd aelodau a gâi'r eiddo newydd eu hadeiladu gyda thaenelli ac a fyddai'r Cyngor yn ystyried gosod taenelli mewn blociau o fflatiau, hybiau ayyb presennol.

- Dywedodd y swyddogion y cânt eu gosod mewn adeiladau newydd ac roeddent yn ystyried eu gosod mewn blociau fflatiau uchel presennol ar hyd o bryd. Nid oeddent yn ystyried fflatiau isel ar hyn o bryd ac ystyriwyd hybiau yn llai o risg gan nad yw pobl yn cysgu ynddynt, mae ganddynt systemau larymau, ac nid ydynt yn uchel, er na châi hynny ei ddiystyru'n llwyr.

- Dywedodd yr aelodau, pan adawodd y Cyngor system cymorthdalu'r CRT, dywedwyd wrthynt y byddai'r Cyngor ar ei ennill gan £2miliwn a gofynnont a gafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffigyrau yn yr adroddiad.
  Esboniodd y swyddogion bod y broses prynu allan wedi dod ag yn agos i £3 miliwn o incwm ychwanegol i'r CRT a gafodd ei ffactora i mewn ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cafodd £2 miliwn ei neilltuo er mwyn prynu eiddo yn ôl.

- Gofynnodd yr aelodau sut roedd y Cyngor yn ystyried y rhwyg rhwng economeg ac ansawdd bywyd wrth gynnig datblygiadau newydd. Esboniodd swyddogion yr ymgymerwyd â phrawf hyfywedd; cafodd pob cartref ei adeiladu fel ei fod yn rhagori ar yr ansawdd ac yn fwy na'r gofyn.
  Beth roedd ar bobl eisiau ac ansawdd yr hyn a ystyriwyd yn erbyn telerau talu'r benthyciad yn ôl.

- O ran modelu ariannol, nododd yr aelodau y gwnaed rhagdybiaethau ym mlwyddyn 7, ac wedyn cynyddodd y ffigyrau yn sylweddol a gofynnwyd beth oedd y rheswm am hyn. Esboniodd y swyddogion y byddai Credyd Cynhwysol yn cael effaith ar ryw bwynt; mae swyddogion yn gweithio ar gyllidebu gyda thenantiaid yn yr hybiau ond roedd rhaid iddynt fod yn barod am ddyledion gwael. Yn ogystal, dywedodd y swyddogion, gyda'r rhent yn mynd yn ei flaen, roedd rhaid iddynt ragweld yr hyn nas rhagwelir wrth gyfrifo. Roedd swyddogion yn hyderus bod y rhagdybiaethau'n gadarn ac yn gall.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet ar ran y Pwyllgor yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : POLISI GORFODI AWDURDOD TRWYDDEDU SENGL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Angharad Thomas, Arweinydd y Grŵp gyda Rhentu Doeth Cymru i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn craffu ar adroddiad cyn gwneud penderfyniad, i'w ystyried gan y Cabinet ar 27 Gorffennaf 2017. Cwmpas y craffu oedd archwilio'r argymhellion arfaethedig, gan gynnwys y polisi gorfodi arfaethedig a gwirio a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad i ddiolch i'r Pwyllgor am y cyfle i drefnu Rhentu Doeth Cymru.

Ychwanegodd fod Cyngor Caerdydd yn falch o gael ei ddynodi'n Awdurdod Trwyddedu Sengl dros Gymru a bu'n gweithredu'r cynllun bellach ers 18 mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd bron 80,000 a 164,000 eiddo ei gofrestru. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol a rhagorodd ar ddisgwyliadau datganedig Llywodraeth Cymru.

Roedd Caerdydd eisoes yn gweld buddion cynnal y gronfa ddata hon o landlordiaid ac asiantau ar waith. Er enghraifft, roedd wedi galluogi Caerdydd i gymryd rhan weithredol wrth gefnogi Llywodraeth Cymru i ddosbarthu negeseuon diogelwch tân ar ôl trasiedi Tŵr Grenfell a thrwy weithio gyda'r Gwasanaeth Swyddogion Rhent, effeithio'n uniongyrchol ar nifer y landlordiaid sy'n barod i gyflenwi data er mwyn arwain penderfyniadau polisi megis lefelau lwfans rhent.

I grynhoi, cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 gynllun cofrestru gorfodol ar gyfer landlordiaid preifat a gofyniad i landlordiaid ac asiantaethau gosod eiddo preifat gael eu trwyddedu os byddant yn gosod neu'n rheoli eiddo.

Er mwyn sicrhau lefelau cydymffurfio uchel gyda Rhentu Doeth Cymru, roedd yn hanfodol bod â fframwaith ar waith sy'n rhoi tryloywder ynglŷn â'r dull gorfodi a fabwysiadwyd gan Rhentu Doeth Cymru (Caerdydd) a'r 22 o Awdurdodau Lleol y mae Caerdydd y gweithio gyda nhw.

Dywedwyd bod y polisi a atodwyd at yr adroddiad wedi bod yn destun ymgynghori gyda rhanddeiliaid a'r 22 Awdurdod Lleol. Roedd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi arwain at symleiddio'r ddogfen derfynol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Thorne am ei datganiad a gofynnodd am gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

> Sylwodd yr aelodau, yn y Polisi Gorfodi Rhentu Doeth Cymru, 'disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn rhoi'r polisi hwn ar waith o safbwynt eu gweithgareddau Rhentu Doeth Cymru, ond, gall fod yna achlysuron, lle bydd hyn yn gwrthdaro â'u polisi gorfodi lleol eu hunain.
>
> Mewn achos felly, bydd polisi'r awdurdod lleol yn cael blaenoriaeth'.
> Ceisiodd yr aelodau eglurder ar hyn a dywedwyd wrthynt fod gan bob awdurdod bolisi gorfodi lleol sydd wedi'i theilwra ar eu cyfer ac ni fyddai Polisi Gorfodi Rhentu Doeth Cymru yn cael ei ddisodli gan, er enghraifft, gorfodi dros Iechyd a Diogelwch. Mae'r holl awdurdodau lleol wedi gweld y polisi a'i gymeradwyo.
>
> Dywedodd yr aelodau fod cael eich dynodi'n Awdurdod Trwyddedu Sengl dros Gymru yn niwtral o ran cost a gofynnont pa fudd oedd i Gaerdydd fel yr awdurdod lletya.
> Dywedodd y swyddogion fod buddion enfawr yn foesol a hefyd roedd yn galluogi Caerdydd i gael rhagor o staff. Er ei fod yn gost niwtral, roedd yn darparu cyfraniadau o ran cyflogres ac AD. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet, gan fod gan Gaerdydd y nifer uchaf o landlordiaid preifat, roedd yn briodol bod arni gyfrifoldeb dros y cynllun.
>
> Nododd yr aelodau y byddai rhai landlordiaid na fyddant wedi cofrestru a gofynasant sut yr eid i'r afael â hyn.

Esboniodd y swyddogion fod cyfrifoldeb arnynt fel landlordiaid i fod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf; mewn rhai ardaloedd gwledig roedd hyn yn gofyn am ragor o farchnata er mwyn gwella ymwybyddiaeth. Roedd y rhai a ddewisodd peidio â chydymffurfio wedi'u rhwymo gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gan y 22 Awdurdod Lleol. Gellid cael gwybodaeth am y rhain trwy lanhau data, gweithio gyda Sefydliadau megis Shelter ac edrych ar gwynion a dderbyniwyd gan denantiaid. Roedd hefyd yn bwysig bod Cynghorwyr yn ymwybodol gan y byddant yn gweld tenantiaid yn cwyno mewn cymorthfeydd wardiau am landlordiaid. Gall pobl wirio ar y wefan i weld a yw ei landlord/eiddo wedi cofrestru. Pan fydd y Cyngor yn ymwybodol o anghydymffurfio, mae'r rhaid i'r iawndal fod yn rhesymol ac yn gymesur. Yn achos landlord unigol, cânt eu rhybuddio ac wedyn cânt ddirwy; os yw'n asiantaeth fawr a fyddai'n ymwybodol iawn o'r ddeddfwriaeth, byddent yn cael dirwy ar unwaith.

Gofynnodd yr Aelodau beth y mae angen i landlordiaid sy'n byw dramor ei wneud a dywedwyd wrthynt fod rhaid iddynt gofrestru eu hunain, ac wedyn gallant ddweud bod yr eiddo'n cael ei reoli gan asiantau gosod ac ni fyddai rhaid iddynt gwblhau rhan hyfforddiant y cynllun.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y costau marchnata'n dod allan o'r ffioedd a dywedwyd wrthynt fod rhai ohonynt o'r costau sefydlu cychwynnol a rhai o bob awdurdod lleol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw faich ar y Cyngor wrth i staff gael eu symud i weithio ar y cynllun. Cydsyniodd y swyddogion eu bod wedi colli rhai aelodau staff da i gynllun Rhentu Doeth Cymru ond eu bod hefyd wedi cymryd rhai pobl; roedd cyfleoedd da i'w cael ar gyfer y staff.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet ar ran y Pwyllgor yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

8 : ADRODDIAD RHAGLENNU GWAITH

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyfansoddiad yn datgan y bydd pob Pwyllgor Craffu yn gosod ei raglen waith ei hun ar gyfer y flwyddyn i ddod (Rheol Gweithdrefn Craffu 7). Rhoddwyd y dasg i'r Pwyllgor o greu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn a ddaw a fyddai'n sicrhau defnyddio'r amser sydd ar gael i'r Pwyllgor mor effeithiol â phosibl, trwy ystyried effaith craffu mewn modd amserol.

Y cam cyntaf oedd nodi eitemau rhaglen waith posibl i'w hystyried a'u blaenoriaethu gan Aelodau'r Pwyllgor trwy:

i. geisio awgrymiadau gan Aelodau a swyddogion;
ii. adolygu'r eitemau a argymhellwyd gan y Pwyllgor blaenorol;
iii. adolygu dogfennau corfforaethol, deddfwriaeth i ddod, rhaglenni gwaith archwilwyr, arolygwyr a rheolyddion perthnasol a dogfennau partneriaethau, consortia a rhai rhanbarthol; a
iv. gwirio dogfennaeth berthnasol arall er mwyn nodi meysydd o fewn y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor.

Yn dilyn paratoi rhestr o eitemau posibl, byddai'n rhaid i Aelodau'r Pwyllgor flaenoriaethu'r eitemau, o ystyried yr ystod o feysydd pwnc y mae'r Pwyllgor yn eu trin a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Fel arfer, bydd Aelodau'n blaenoriaethu eitemau lle y gall craffu gael yr effaith fwyaf, sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd yn helpu i gyflawni perfformiad gwell ac nad ydynt dan ymchwiliad trwy

lwybrau eraill. Mae hyn yn sicrhau y caiff yr amser a’r adnoddau sydd ar gael i’r Pwyllgor yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r aelodau wedi cynnal fforwm rhaglenni gwaith er mwyn ystyried a blaenoriaethu eitemau. Yna, cyflwynwyd cynigion y fforwm i’r Pwyllgor er mwyn cymeradwyo’r rhaglen waith yn ffurfiol.  Yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau’r Pwyllgor, cynigiwyd defnyddio’r dull hwn eleni.

Dywedwyd wrth aelodau yr anfonid rhestr o eitemau/pynciau posibl ar 4 Awst (ynghyd â chyngor gan y swyddogion ar y ffordd orau o ddewis blaenoriaethau) y byddent wedyn yn eu trafod a'u blaenoriaethu yn y fforwm rhaglenni gwaith a gynllunnir ar gyfer 7 Awst; câi’r rhaglen waith hon ei chymeradwyo’n ffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Awst.

PENDERFYNWYD:  Trafod a chytuno ar ddull datblygu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2017-18, fel y gellir dod â fersiwn derfynol o'r rhaglen yn ôl at y Pwyllgor ym mis Medi 2017 i’w cymeradwyo’n ffurfiol.

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 6 Medi 2017 am 4.30 pm